

Disability Service

Aim

Ein nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n sicrhau y caiff myfyrwyr anabl eu cynnwys yn llawn yn y gymuned academiaidd a chymdeithasol, gan feithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth. Gan weithredu o fewn model cymdeithasol anableded, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sefydliad i symud rhwystrau a hyrwyddo cydraddoldeb drwy sefydlu cynhwysedd mewn gweithredu bob dydd.

Objectives

Cynnig cefnogaeth ac arweiniad personol ac academiaidd i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol, adnabod strategaethau priodol i gael gwared ar rwystrau a hwyluso astudio a thasgau bob dydd;

Gweithio gyda myfyrwyr i ddatblygu eu gwytnwch emosiynol a'u hunanddibyniaeth, a helpu myfyrwyr i reoli effaith prifysgol ar eu hamhariad/cyflwr iechyd. Helpu myfyrwyr, lle bo'r angen, i fod yn realistig ynghylch eu lles a'u potensial academiaidd, gan gymryd i ystyriaeth ddyletswydd y brifysgol i ofalu amdanynt;

Rhoi cyngor a chyfarwyddyd i bartneriaid i gyflawni anghenion myfyrwyr unigol a rhoi cefnogaeth briodol iddynt;

Cysylltu â staff er mwyn addasu dulliau gweithredu i sicrhau y ceir dysgu hygyrch / darparu cyfleusterau hygyrch;

Trefnu a chynnal datblygiad a hyfforddiant staff i hyrwyddo cydraddoldeb anableded a darpariaeth gynhwysol;

Cynnal sgiliau proffesiynol staff i'w galluogi i ddiwallu'r gofynion o ran y gwasanaeth a'r ddarpariaeth;

Darparu gwasanaeth ymgynghorol i'r brifysgol ar faterion yn ymwneud ag anableded, cyfrannu at waith pwyllgorau perthnasol yn y brifysgol a goleuo dogfennau polisi;

Datblygu ein darpariaeth mewn partneriaeth â myfyrwyr a staff trwy drafodaeth sy'n ein galluogi i addasu'n barhaus a gwella ein gwasanaeth.